



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 Rhif 925 (Cy.134)

2011 No. 925 (W.134)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**TRWYDDEDU (MOROL),
CYMRU**

**LICENSING (MARINE),
WALES**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

Rheoliadau Trwyddedu Morol
(Apelau yn Erbyn Penderfyniadau
Trwyddedu) (Cymru) 2011

The Marine Licensing (Appeals
Against Licensing Decisions)
(Wales) Regulations 2011

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu gweithdrefn apelau mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed o dan adran 71 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Maent yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedawdy y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113 o'r Ddeddf honno.

These Regulations establish an appeals procedure in relation to decisions taken under section 71 of the Marine and Coastal Access Act 2009. They apply in relation to any licensable marine activity for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority under section 113 of that Act.

Mae Rhan 1 (rheoliadau 1 i 3) yn ymdrin â materion rhagarweiniol.

Part 1 (regulations 1 to 3) deals with introductory matters.

Mae Rhan 2 (rheoliadau 4 a 5) yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu bod hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniadau trwyddedu morol, ac yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn penodi person i benderfynu apelau o'r fath.

Part 2 (regulations 4 and 5) contains provisions setting out a right of appeal to the Welsh Ministers against marine licensing decisions and requiring the Welsh Ministers to appoint a person to determine such appeals.

Mae Rhan 3 (rheoliadau 6 i 8) yn cynnwys darpariaethau ynghylch terfynau amser ar gyfer hysbysiadau o apêl, cynnwys yr hysbysiadau hynny a phenderfyniadau ynglŷn â gweithdrefn apêl.

Part 3 (regulations 6 to 8) contains provisions relating to time limits for, and contents of, notices of appeal, and decisions as to appeal procedure.

Mae Rhan 4 (rheoliadau 9 a 10) yn cynnwys darpariaethau ynghylch hysbysiadau, sylwadau ac esboniadau.

Mae Rhan 5 (rheoliadau 11 i 20) yn cynnwys darpariaethau ynghylch gwrandawiadau ac ymchwiliadau.

Mae Rhan 6 (rheoliadau 21 a 22) yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu'r apêl.

Mae Rhan 7 (rheoliadau 23 i 25) yn cynnwys darpariaethau atodol ynghylch methiant i weithredu, cyflenwi dogfennau, estyn terfynau amser a darparu gwybodaeth ychwanegol.

Mae asesiad llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk.

Part 4 (regulations 9 and 10) contains provisions relating to notices, representations and comments.

Part 5 (regulations 11 to 20) contains provisions relating to hearings and inquiries.

Part 6 (regulations 21 and 22) contains provisions relating to the determination of the appeal.

Part 7 (regulations 23 to 25) contains supplementary provisions relating to failure to take action, supply of documents, extending deadlines and providing additional information.

A full impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business, the voluntary sector and the public sector is available from the Marine Consents Unit, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ, or at the Welsh Assembly Government website at www.wales.gov.uk.

2011 Rhif 925 (Cy.134)

2011 No. 925 (W.134)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**TRWYDDEDU (MOROL),
CYMRU**

**LICENSING (MARINE),
WALES**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

Rheoliadau Trwyddedu Morol
(Apelau yn Erbyn Penderfyniadau
Trwyddedu) (Cymru) 2011

The Marine Licensing (Appeals
Against Licensing Decisions)
(Wales) Regulations 2011

Gwnaed 22 Mawrth 2011

Made 22 March 2011

Yn dod i rym 6 Ebrill 2011

Coming into force 6 April 2011

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Darpariaethau rhagarweiniol

Introduction

1. Enwi a chychwyn
2. Cymhwyso
3. Dehongli

1. Title and commencement
2. Application
3. Interpretation

RHAN 2

PART 2

Apelau — cyffredinol

Appeals — general

4. Apêl yn erbyn penderfyniadau trwyddedu morol
5. Penderfynu apêl gan berson a benodir

4. Appeal against marine licensing decisions
5. Determination of appeal by appointed person

RHAN 3

PART 3

Dechrau'r apêl

Starting the appeal

6. Terfyn amser ar gyfer hysbysiad apêl

6. Time limit for the notice of appeal

7. Cynnwys yr hysbysiad apêl
8. Penderfynu ar weithdrefn apêl a dyddiad dechrau

RHAN 4

Gweithredu ar ôl y dyddiad dechrau

9. Hysbysiad i bersonau sydd â diddordeb
10. Sylwadau ac esboniadau

RHAN 5

Gwrandawiadau ac ymchwiliadau

11. Cwmpas
12. Sefydlu'r gwrandawriad neu ymchwiliad
13. Cyfarfod cyn yr ymchwiliad
14. Datganiad o'r ffeithiau cytunedig — ymchwiliadau
15. Proflenni tystiolaeth — ymchwiliadau
16. Gweithdrefn
17. Pwerau i wahardd personau, tystiolaeth etc
18. Darpariaethau ychwanegol ynghylch tystiolaeth a chostau
19. Ymchwiliadau cyfamserol neu gyfunol
20. Diogelwch gwladol — ymchwiliadau

RHAN 6

Penderfynu'r apêl yn derfynol

21. Penderfynu apelau a benderfynir drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig
22. Penderfynu'r apêl — cyffredinol

RHAN 7

Darpariaethau atodol

23. Methiant i weithredu
24. Cyflenwi dogfennau etc
25. Estyn terfynau amser perthnasol, a darparu gwybodaeth ychwanegol neu gopiâu ychwanegol

7. Contents of the notice of appeal
8. Decision as to appeal procedure and start date

PART 4

Action following the start date

9. Notice to interested persons
10. Representations and comments

PART 5

Hearings and inquiries

11. Scope
12. Establishing the hearing or inquiry
13. Pre-inquiry meeting
14. Statement of agreed facts — inquiries
15. Proofs of evidence — inquiries
16. Procedure
17. Powers to exclude persons, evidence etc
18. Additional provisions as to evidence and costs
19. Concurrent or combined inquiries
20. National security — inquiries

PART 6

Final determination of the appeal

21. Determination of appeals determined by way of written representations
22. Determining the appeal — general

PART 7

Supplementary provisions

23. Failure to take action
24. Supply of documents etc
25. Extending relevant time limits and providing additional information or copies

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (1), yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 73 a 316(1) o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 316(6)(b) a (7)(c) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

RHAN 1

Rhagarweiniad

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy, y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (2).

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Awdurdod Trwyddedu" ("*the Licensing Authority*") yw Gweinidogion Cymru, yn gweithredu yn eu swyddogaeth fel yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

mae "dogfen" ("*document*") yn cynnwys map, ffotograff neu adroddiad;

mae i "dyddiad dechrau" ("*start date*") yr ystyr a roddir gan reoliad 8(3);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

(1) 2009 p.23.

(2) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy yng Nghymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. Gweler adran 322(1) am ddiffiniad o'r rhanbarth hwnnw.

The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1), make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 73 and 316(1) of that Act.

In accordance with section 316(6)(b) and (7)(c) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.

PART 1

Introduction

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Marine Licensing (Appeals Against Licensing Decisions) (Wales) Regulations 2011.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2011.

Application

2. These Regulations apply in relation to any licensable marine activity for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(2).

Interpretation

3. In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Marine and Coastal Access Act 2009;

"the appointed person" ("*y person penodedig*") means the person appointed under regulation 5(1);

"document" ("*dogfen*") includes a map, photograph or report;

"the Licensing Authority" ("*yr Awdurdod Trwyddedu*") means the Welsh Ministers acting in their capacity as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009;

(1) 2009 c. 23.

(2) By virtue of section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009, the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority as respects anything done in the course of carrying on licensable marine activities in Wales and the Welsh inshore region, other than activities for which the Secretary of State is the licensing authority under section 113(4)(a) and (5) of that Act. See section 322(1) for a definition of that region.

ystyr "hysbysiad apêl dilys" ("*valid notice of appeal*") yw hysbysiad apêl—

- (a) sy'n cydymffurfio â rheoliad 7(1);
- (b) a anfonwyd ynghyd â'r dogfennau sy'n ofynnol gan reoliad 7(2); ac
- (c) a gafwyd gan Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser perthnasol;

ystyr "y person penodedig" ("*the appointed person*") yw'r person a benodir o dan reoliad 5(1);

ystyr "terfynau amser perthnasol" ("*relevant time limits*") yw—

- (a) y terfynau amser a bennir yn y Rheoliadau hyn neu mewn unrhyw gyfarwyddyd a roddir neu ofyniad a wneir gan y person penodedig yn rhinwedd y Rheoliadau hyn;
- (b) ond mae is-baragraff (a) yn ddarostyngedig i reoliad 25(1).

ystyr "trwydded forol" ("*marine licence*") yw trwydded a roddir o dan Ran 4 o'r Ddeddf

"marine licence" ("*trwydded morol*") means a licence granted under Part 4 of the Act;

"relevant time limits" ("*terfynau amser perthnasol*") means—

- (a) the time limits specified in these Regulations or in any direction given or requirement made by the appointed person by virtue of these Regulations;
- (b) but sub-paragraph (a) is subject to regulation 25(1).

"start date" ("*dyddiad dechrau*") has the meaning given by regulation 8(3);

"valid notice of appeal" ("*hysbysiad apêl dilys*") means a notice of appeal that—

- (a) complies with regulation 7(1);
- (b) was accompanied by the documents required by regulation 7(2); and
- (c) was received by the Welsh Ministers within the relevant time limit.

RHAN 2

Apelau — cyffredinol

Apêl yn erbyn penderfyniadau trwyddedu morol

4.—(1) Caiff person a wnaeth gais am drwydded forol apelio i Weinidogion Cymru drwy hysbysiad yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan adran 71 o'r Ddeddf (gwrthod trwydded neu ganiatáu yn ddarostyngedig i amodau etc).

(2) Rhaid gwneud apelau yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Penderfynu gan berson a benodir

5.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person ("y person penodedig")—

- (a) i benderfynu, pan ddaw hysbysiad apêl i law yn unol â rheoliad 4(1), a yw'r hysbysiad a ddaeth i law yn hysbysiad apêl dilys, ac os ydyw,
- (b) penderfynu'r apêl.

(2) Rhaid penderfynu apelau yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(3) Pan wneir penodiad o dan baragraff (1)—

- (a) rhaid gwneud y penodiad mewn ysgriflen;
- (b) ceir gwneud y penodiad ar gyfer unrhyw apêl benodol a bennir yn y penodiad, neu ar gyfer dosbarth neu ddisgrifiad o apelau a bennir felly;

PART 2

Appeals — general

Appeal against marine licensing decisions

4.—(1) A person who has applied for a marine licence may by notice appeal to the Welsh Ministers against a decision taken under section 71 of the Act (refusal of licence or grant subject to conditions etc).

(2) Appeals must be made in accordance with these Regulations.

Determination by appointed person

5.—(1) The Welsh Ministers must appoint a person ("the appointed person") to—

- (a) determine, upon receipt of a notice of appeal pursuant to regulation 4(1), whether the notice received is a valid notice of appeal and if so;
- (b) determine the appeal.

(2) Appeals must be determined in accordance with these Regulations.

(3) An appointment under paragraph (1)—

- (a) must be in writing;
- (b) may relate to any particular appeal specified in the appointment or to appeals of a class or description so specified;

- (c) caiff fod yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a bennir yn y penodiad;
- (ch) caiff ddarparu ar gyfer talu i'r person penodedig.

(4) Mewn perthynas ag unrhyw apêl nad yw eisoes wedi ei phenderfynu, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu penodiad a wnaed o dan baragraff (1) os—

- (a) hysbysir hwy mewn ysgrifed gan y person penodedig, neu
- (b) os bodlonir hwy rywfodd arall,

nad yw'r person penodedig yn alluog i gyflawni gofynion paragraff (1).

(5) Pan ddirymir penodiad felly mewn perthynas ag unrhyw apêl, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, benodi person arall o dan baragraff (1) i benderfynu'r apêl.

(6) Pan wneir penodiad newydd, rhaid i'r ystyriaeth o'r apêl, neu unrhyw wrandawriad neu ymchwiliad mewn perthynas â hi, aildddechrau o'r newydd.

(7) Ond nid oes dim ym mharagraff (6) sy'n gwneud yn ofynnol rhoi cyfle i unrhyw berson wneud sylwadau neu esboniadau newydd, nac addasu na thynnu'n ôl unrhyw sylwadau neu esboniadau a wnaed eisoes.

- (c) may be subject to such conditions as may be specified in the appointment;
- (d) may provide for payment to be made to the appointed person.

(4) In respect of any appeal that has not been determined the Welsh Ministers may revoke an appointment under paragraph (1) if they are—

- (a) notified in writing by the appointed person; or
- (b) are otherwise satisfied;

that the appointed person is unable to carry out the requirements of paragraph (1).

(5) Where an appointment is so revoked in respect of any appeal, the Welsh Ministers must, as soon as practicable, appoint another person under paragraph (1) to determine the appeal.

(6) Where a new appointment is made, the consideration of the appeal, or any hearing or inquiry in connection with it, must be begun afresh.

(7) But nothing in paragraph (6) requires any person to be given an opportunity to make fresh representations or comments or to modify or withdraw any representations or comments already made.

RHAN 3

Dechrau'r apêl

Terfyn amser ar gyfer hysbysiad apêl

6. Rhaid i hysbysiad apêl ddod i law Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod o 6 mis sy'n cychwyn gyda dyddiad y penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

Cynnwys yr hysbysiad apêl

7.—(1) Rhaid i hysbysiad apêl gynnwys—

- (a) enw, cyfeiriad (gan gynnwys unrhyw gyfeiriad e-bost) a rhif teleffon yr apelydd ac unrhyw asiant sy'n gweithredu ar ran yr apelydd;
- (b) datganiad o seiliau'r apêl;
- (c) datganiad pa un ai drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad, ynteu ymchwiliad y mae'r apelydd yn dymuno i'r apêl gael ei thrin;
- (ch) rhestr o'r holl ddogfennau, gan gynnwys dyddiadau (pan fo'r dogfennau wedi eu dyddio), a bennir ym mharagraff (2).

(2) Rhaid i hysbysiad apêl gael ei gyflwyno ynghyd ag—

PART 3

Starting the appeal

Time limit for the notice of appeal

6. Notice of an appeal must be received by the Welsh Ministers within the period of 6 months beginning with the date of the decision to which the appeal relates.

Contents of the notice of appeal

7.—(1) A notice of appeal must include—

- (a) the name, address (including any e-mail address) and telephone number of the appellant and any agent acting for the appellant;
- (b) a statement of the grounds of appeal;
- (c) a statement as to whether the appellant wishes to have the appeal dealt with by way of written representations, a hearing or an inquiry;
- (d) a list of all the documents, including dates (where any document is dated), specified in paragraph (2).

(2) A notice of appeal must be accompanied by—

- (a) copi o'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef; a
- (b) copi o'r holl ddogfennau y mae'r apelydd yn bwriadu dibynnu arnynt.

Penderfynu ar weithdrefn apêl a dyddiad dechrau

8.—(1) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu ar ddilysrwydd hysbysiad apêl, benderfynu a yw'r apêl i gael ei phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad ynteu ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r person penodedig hysbysu'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu o'r penderfyniad hwnnw.

(3) Dyddiad yr hysbysiad hwnnw yw'r dyddiad dechrau ar gyfer yr apêl.

(4) Ceir amrywio'r penderfyniad o dan baragraff (1) gan benderfyniad diweddarach o dan y paragraff hwnnw, ar unrhyw adeg cyn penderfynu'r apêl.

(5) Ond cyn gwneud amrywiad o'r fath, rhaid i'r person penodedig ymgynghori â'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu.

(6) Os caiff y penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ei amrywio—

- (a) rhaid i'r person penodedig hysbysu'r apelydd, yr Awdurdod Trwyddedu ac unrhyw berson arall a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r apêl, ynghylch yr amrywiad;
- (b) bydd unrhyw beth a wnaed mewn perthynas â'r weithdrefn apêl flaenorol, y gellid bod wedi ei wneud o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol o'r Rheoliadau hyn sy'n ymwneud â'r weithdrefn apêl newydd, yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan y ddarpariaeth gyfatebol honno; ac
- (c) caiff y person penodedig roi cyfarwyddiadau canlyniadol ynglŷn â'r weithdrefn.

(7) Nid oes dim ym mharagraffau (4) i (6) sy'n effeithio ar y dyddiad dechrau o dan baragraff (3).

(8) Wrth wneud penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid i'r person penodedig roi sylw i unrhyw griteria a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

RHAN 4

Gweithredu ar ôl y dyddiad dechrau

Hysbysiad i bersonau sydd â diddordeb

9.—(1) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 2 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, roi hysbysiad i'r perwyl bod apêl wedi ei gwneud—

- (a) a copy of the decision to which the appeal relates; and
- (b) a copy of all documents upon which the appellant wishes to rely.

Decision as to appeal procedure and start date

8.—(1) The appointed person must, as soon as practicable after determining the validity of a notice of appeal, decide whether the appeal is to be determined by means of written representations, a hearing or an inquiry.

(2) The appointed person must notify the appellant and the Licensing Authority of that decision.

(3) The date of that notification is the start date for the appeal.

(4) A decision under paragraph (1) may be varied by a subsequent decision under that paragraph at any time before the appeal is determined.

(5) But before making such a variation, the appointed person must consult the appellant and the Licensing Authority.

(6) Where the decision referred to in paragraph (1) is varied—

- (a) the appointed person must notify the appellant, the Licensing Authority and any other person who has made written representations in respect of the appeal, of the variation;
- (b) anything done in relation to the former appeal procedure which could have been done under any corresponding provision of these Regulations relating to the new appeal procedure has effect as if done under that corresponding provision; and
- (c) the appointed person may give consequential directions as to the procedure.

(7) Nothing in paragraphs (4) to (6) affects the start date under paragraph (3).

(8) In making a decision under paragraph (1), the appointed person must have regard to any criteria published by the Welsh Ministers.

PART 4

Action following the start date

Notice to interested persons

9.—(1) The Licensing Authority must, within the period of 2 weeks beginning with the start date, give notice that an appeal has been lodged—

- (a) i unrhyw berson (ac eithrio'r apelydd) sydd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â'r cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef; a
- (b) i unrhyw berson arall sydd, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu, yn debygol o fod â diddordeb.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

- (a) y dyddiad dechrau;
- (b) enw a lleoliad y safle y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;
- (c) enw'r apelydd;
- (ch) y bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad (yn ôl fel y digwydd);
- (d) y caiff derbynnydd yr hysbysiad, o fewn y cyfnod o 4 wythnos sy'n cychwyn gyda dyddiad yr hysbysiad, gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig;
- (dd) y cyfeiriad y mae'n rhaid anfon sylwadau o'r fath iddo;
- (e) y bydd unrhyw sylwadau a ddaw i law yn cael eu hanfon at yr apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu; ac
- (f) os bydd y derbynnydd yn gwneud sylwadau, y bydd y person penodedig yn ei hysbysu o ddyddiad unrhyw wrandawriad neu ymchwiliad a gynhelir.

(3) Ynghyd â'r hysbysiad rhaid darparu copi o'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

(4) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 2 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon y canlynol at y person penodedig ac at yr apelydd—

- (a) rhestr o'r personau y rhoddwyd yr hysbysiad o dan baragraff (1) iddynt, ac o'r dyddiadau y gwnaed hynny; a
- (b) copïau o'r holl sylwadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a).

Sylwadau ac esboniadau

10.—(1) Pan fo apêl i gael ei phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig—

- (a) rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig unrhyw sylwadau y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno'u gwneud ynglŷn â'r apêl, ynghyd ag unrhyw ddogfennau y mae'n bwriadu dibynnu arnynt;
- (b) os yw'r apelydd yn dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â'r apêl, yn ychwanegol at y datganiad o seiliau'r apêl y cyfeirir ato yn rheoliad 7(1)(b) neu'r dogfennau a gyflwynwyd gydag

- (a) to any person (other than the appellant) who has made representations in writing to the Licensing Authority in respect of the application to which the appeal relates; and
- (b) to any other person it considers likely to have an interest.

(2) The notice must state—

- (a) the start date;
- (b) the name and location of the site to which the appeal relates;
- (c) the name of the appellant;
- (d) that the appeal will be determined by way of written representations, a hearing or an inquiry (as the case may be);
- (e) that, within the period of 4 weeks beginning with the date of the notice, the recipient may make written representations to the appointed person;
- (f) the address to which such representations must be sent;
- (g) that any representations received will be sent to the appellant and the Licensing Authority; and
- (h) that if the recipient makes representations, the recipient will be notified by the appointed person of the date of any hearing or inquiry that may be held.

(3) The notice must be accompanied by a copy of the decision to which the appeal relates.

(4) The Licensing Authority must, within the period of 2 weeks beginning with the start date, send to the appointed person and the appellant—

- (a) a list of the persons to whom, and the dates on which, notice under paragraph (1) was given; and
- (b) copies of all representations referred to in paragraph (1)(a).

Representations and comments

10.—(1) Where an appeal is to be determined by way of written representations—

- (a) the Licensing Authority must, within the period of 6 weeks beginning with the start date, send to the appointed person any representations it wishes to make on the appeal together with any documents it wishes to rely on;
- (b) if the appellant wishes to make representations on the appeal in addition to the statement of the grounds of appeal referred to in regulation 7(1)(b), or the documents accompanying it

ef, y cyfeirir atynt yn rheoliad 7(2), rhaid i'r apelydd anfon y sylwadau hynny at y person penodedig o fewn y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau.

(2) Pan fo apêl i gael ei phenderfynu drwy gyfrwng gwrandawriad neu ymchwiliad, rhaid i'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu, ill dau, o fewn y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig ddatganiad sy'n cynnwys manylion llawn o'r achos y maent yn bwriadu ei roi gerbron yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, a rhestr o unrhyw ddogfennau y bwriadant gyfeirio atynt neu'u rhoi yn dystiolaeth.

(3) Ar ddiwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, rhaid i'r person penodedig—

- (a) os yw'r apêl i'w phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig—
 - (i) anfon copi o sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu at yr apelydd; a
 - (ii) anfon copi o unrhyw sylwadau a wnaed gan yr apelydd o dan baragraff (1)(b) at yr Awdurdod Trwyddedu;
- (b) os yw'r apêl i'w phenderfynu drwy gyfrwng gwrandawriad neu ymchwiliad, anfon copi o sylwadau a rhestr dogfennau'r Awdurdod Trwyddedu at yr apelydd a chopi o ddatganiad a rhestr dogfennau'r apelydd at yr Awdurdod Trwyddedu;
- (c) ym mhob achos, anfon, ar yr un pryd, copïau o unrhyw sylwadau eraill a ddaw i law'r person penodedig mewn perthynas â'r apêl at yr apelydd ac at yr Awdurdod Trwyddedu.

(4) Caiff yr apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 9 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig esboniadau ar y sylwadau hynny neu'r datganiad hwnnw.

(5) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod hwnnw o 9 wythnos, anfon copi o esboniadau'r Awdurdod Trwyddedu at yr apelydd, ac ar yr un pryd, anfon copi o esboniadau'r apelydd at yr Awdurdod Trwyddedu.

RHAN 5

Gwrandawiadau ac ymchwiliadau

Cwmpas

11. Mae'r Rhan hon yn gymwys os yw apêl i'w phenderfynu drwy gyfrwng gwrandawriad neu ymchwiliad (ond bydd rhai darpariaethau yn gymwys i wrandawiadau yn unig neu ymchwiliadau yn unig).

referred to in regulation 7(2), the appellant must send those representations to the appointed person within the period of 6 weeks beginning with the start date.

(2) Where an appeal is to be determined by way of hearing or inquiry, the appellant and the Licensing Authority must each, within the period of 6 weeks beginning with the start date, send to the appointed person a statement containing full particulars of the case they propose to put forward at the hearing or inquiry and a list of any documents they propose to refer to or put in evidence.

(3) At the end of the period of 6 weeks beginning with the start date, the appointed person must—

- (a) where the appeal is to be determined by way of written representations—
 - (i) send a copy of the Licensing Authority's representations to the appellant; and
 - (ii) send a copy of any representations made by the appellant under paragraph (1)(b) to the Licensing Authority
- (b) where the appeal is to be determined by way of hearing or inquiry, send a copy of the Licensing Authority's statement and list of documents to the appellant and a copy of the appellant's statement and list of documents to the Licensing Authority;
- (c) in all cases, send, at the same time, copies of any other representations received by the appointed person in relation to the appeal, to the appellant and the Licensing Authority.

(4) The appellant and the Licensing Authority may, within the period of 9 weeks beginning with the start date, send comments on those representations or statements to the appointed person.

(5) The appointed person must, as soon as practicable after that 9 week period, send a copy of the Licensing Authority's comments to the appellant and at the same time, send a copy of the appellant's comments to the Licensing Authority.

PART 5

Hearings and inquiries

Scope

11. This Part applies if an appeal is to be determined by way of hearing or inquiry (but certain provisions apply only to hearings or only to inquiries).

Sefydlu'r gwrandawriad neu ymchwiliad

12.—(1) Rhaid i'r person penodedig bennu dyddiad ar gyfer y gwrandawriad neu ymchwiliad ("y dyddiad perthnasol").

(2) Rhaid i'r person penodedig, 6 wythnos o leiaf cyn y dyddiad perthnasol, roi hysbysiad o'r dyddiad perthnasol i'r apelydd, yr Awdurdod Trwyddedu ac i unrhyw berson a wnaeth sylwadau ynglŷn â'r apêl.

(3) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, 3 wythnos o leiaf cyn y dyddiad perthnasol, gyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawriad neu ymchwiliad, ym mha bynnag fodd y tybia'r Awdurdod Trwyddedu fydd y mwyaf effeithiol o ran ei ddwyn i sylw unrhyw bersonau sy'n debygol o fod â diddordeb ynddo.

(4) Os newidir y dyddiad perthnasol rhaid dilyn drachefn y weithdrefn ym mharagraffau (2) a (3).

Y cyfarfod cyn yr ymchwiliad

13.—(1) Os yw'r apêl i gael ei phenderfynu drwy ymchwiliad, caiff y person penodedig gynnal cyfarfod cyn yr ymchwiliad, i benderfynu ar y materion y rhoddir sylw iddynt a'r weithdrefn a ddilynir yn yr ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r person penodedig roi 4 wythnos, o leiaf, o rybudd o gyfarfod o'r fath i'r canlynol—

- (a) yr apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu;
- (b) unrhyw berson y gwyddys, ar ddyddiad yr hysbysiad, bod hawl ganddo i ymddangos yn yr ymchwiliad; ac
- (c) unrhyw berson arall yr ystyrir ei bresenoldeb yn ddymunol gan y person penodedig.

(3) Yn y cyfarfod, caiff y person penodedig roi cyfarwyddiadau i'r apelydd, yr Awdurdod Trwyddedu ac unrhyw berson arall sy'n dymuno ymddangos yn yr ymchwiliad, ynghylch pethau sydd i'w gwneud wrth baratoi ar gyfer yr ymchwiliad ac erbyn pa ddyddiad y bydd rhaid eu gwneud.

(4) Rhaid i berson y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan baragraff (3) gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

Datganiad o'r ffeithiau cytunedig — ymchwiliadau

14.—(1) Rhaid i'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu ar y cyd baratoi datganiad sy'n cynnwys pa bynnag wybodaeth ffeithiol y gallant gyuno arni ynglŷn â'r mater sy'n destun yr apêl.

(2) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod y person penodedig yn cael y datganiad hwnnw 4 wythnos, o leiaf, cyn dyddiad yr ymchwiliad.

Establishing the hearing or inquiry

12.—(1) The appointed person must set a date for the hearing or inquiry ("the relevant date").

(2) The appointed person must, at least 6 weeks before the relevant date, give notice of the relevant date to the appellant, the Licensing Authority and any person who has made representations concerning the appeal.

(3) The Licensing Authority must, at least 3 weeks before the relevant date, publish notice of the hearing or inquiry in such manner as the Licensing Authority thinks will be most effective to bring it to the attention of any persons likely to be interested in it.

(4) If the relevant date is changed the procedure in paragraphs (2) and (3) must be repeated.

Pre-inquiry meeting

13.—(1) Where the appeal is to be determined by way of inquiry, the appointed person may hold a pre-inquiry meeting to determine the matters to be addressed and the procedure to be followed at the inquiry.

(2) The appointed person must give at least 4 weeks' notice of such a meeting to—

- (a) the appellant and the Licensing Authority;
- (b) any person known at the date of the notice to be entitled to appear at the inquiry; and
- (c) any other person whose presence the appointed person considers desirable.

(3) At the meeting, the appointed person may give directions to the appellant, the Licensing Authority and any other person wishing to appear at the inquiry about things to be done in preparation for the inquiry and the date by which they must be done.

(4) A person to whom a direction is given under paragraph (3) must comply with it.

Statement of agreed facts — inquiries

14.—(1) The appellant and the Licensing Authority must together prepare a statement containing such factual information about the subject matter of the appeal as they are able to agree.

(2) The Licensing Authority must ensure that the appointed person receives that statement at least 4 weeks before the inquiry date.

Proflenni tystiolaeth —ymchwiliadau

15.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person sydd â hawl i ymddangos mewn ymchwiliad yn bwriadu rhoi tystiolaeth, neu alw tyst i roi tystiolaeth, yn yr ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r person, 4 wythnos o leiaf cyn dyddiad yr ymchwiliad, neu ba bynnag adeg arall a gyfarwyddir gan y person penodedig, anfon proflen at y person penodedig o'r dystiolaeth y bwriedir ei rhoi, ynghyd ag unrhyw grynodeb ysgrifenedig sy'n ofynnol.

(3) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael proflen tystiolaeth, anfon copi ohoni at yr apelydd, yr Awdurdod Trwyddedu ac at unrhyw berson arall a anfonodd broflen at y person penodedig.

(4) Mae crynodeb ysgrifenedig yn ofynnol os yw'r broflen tystiolaeth dan sylw yn hwy na 1500 gair.

(5) Pan ddarperir crynodeb ysgrifenedig, y crynodeb hwnnw yn unig y caniateir ei ddarllen yn yr ymchwiliad, oni fydd y person penodedig yn cyfarwyddo fel arall.

(6) Pan fo person yn rhoi tystiolaeth mewn ymchwiliad drwy ddarllen crynodeb o broflen tystiolaeth—

- (a) trinnir y broflen tystiolaeth fel pe bai wedi ei rhoi mewn tystiolaeth, oni fydd y person y mae'n ofynnol iddo ddarparu'r crynodeb yn hysbysu'r person penodedig fod y person hwnnw bellach yn dymuno dibynnu ar gynnwys y crynodeb hwnnw yn unig; a
- (b) gall y person y mae'i dystiolaeth wedi ei chynnwys yn y broflen tystiolaeth fod yn
- (c) agored i'w groesholi arni, i'r un graddau â phe bai'r dystiolaeth wedi ei rhoi ar lafar.

(7) Caiff y person penodedig ganiatáu i berson newid neu ychwanegu at broflen tystiolaeth neu grynodeb y person hwnnw, i'r graddau y bo'n angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad.

(8) Ond os gwneir hynny, rhaid i'r person penodedig (drwy ohirio'r ymchwiliad os bydd angen) roi cyfle digonol i bob person arall sy'n ymddangos yn yr ymchwiliad ystyried unrhyw fater neu ddogfen newydd.

(9) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 17.

Gweithdrefn

16.—(1) Ac eithrio pan ddarperir fel arall yn y Rheoliadau hyn, caiff y person penodedig benderfynu ar y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn gwrandawriad neu ymchwiliad.

(2) Unwaith y bydd gwrandawriad neu ymchwiliad wedi cychwyn, caiff y person penodedig ohirio'r ymchwiliad ar unrhyw adeg.

Proofs of evidence — inquiries

15.—(1) This regulation applies where a person entitled to appear at an inquiry intends to give, or to call a witness to give, evidence at the inquiry.

(2) The person must, at least 4 weeks before the inquiry date or such other time as the appointed person directs, send a proof of the evidence intended to be given together with any written summary required to the appointed person.

(3) The appointed person must, as soon as practicable after receiving a proof of evidence, send a copy of it to the appellant, the Licensing Authority and any other person who has sent a proof to the appointed person.

(4) A written summary is required if the proof of evidence in question exceeds 1500 words.

(5) Where a written summary is provided, only that summary may be read at the inquiry, unless the appointed person directs otherwise.

(6) Where a person gives evidence at an inquiry by reading a summary of a proof of evidence—

- (a) the proof of evidence is treated as tendered in evidence, unless the person required to provide the summary notifies the appointed person that the person now wishes to rely on the contents of that summary alone; and
- (b) the person whose evidence the proof of evidence contains may be subject to cross-examination on it to the same extent as if it were evidence given orally.

(7) The appointed person may allow any person to alter or add to that person's proof of evidence or summary so far as may be necessary for the purposes of the inquiry.

(8) But if this is done, the appointed person must (if necessary by adjourning the inquiry) give every other person appearing at the inquiry an adequate opportunity of considering any fresh matter or document.

(9) This regulation is subject to regulation 17.

Procedure

16.—(1) Except as otherwise provided in these Regulations, the appointed person may determine the procedure to be followed at a hearing or inquiry.

(2) Once the hearing or inquiry has started the appointed person may adjourn it at any time.

- (3) Y personau sydd â hawl i ymddangos yw—
- (a) yr apelydd;
 - (b) yr Awdurdod Trwyddedu; ac
 - (c) unrhyw berson sydd wedi gwneud sylwadau ynglŷn â'r apêl.

(4) Caiff y person penodedig fynd ymlaen yn absenoldeb unrhyw berson sydd â hawl i ymddangos.

(5) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson arall ymddangos, a rhaid peidio â gwrthod caniatâd o'r fath yn afresymol.

(6) Caiff unrhyw berson, sydd â hawl neu ganiatâd i ymddangos, naill ai ymddangos yn bersonol neu gael ei gynrychioli gan unrhyw berson arall.

(7) Caiff person sydd â hawl i ymddangos alw tystiolaeth, ond fel arall, mae galw tystiolaeth yn fater i ddisgresiwn y person penodedig.

(8) Ni chaniateir croesholi mewn gwrandawriad, oni fydd y person penodedig o'r farn bod hynny'n ofynnol er mwyn sicrhau archwiliad trylwyr o'r prif faterion.

(9) Os yw'r person penodedig o'r farn bod croesholi yn angenrheidiol, rhaid i'r person penodedig, ar ôl ymgynghori â'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu, ystyried a ddylid cau'r gwrandawriad ac agor ymchwiliad yn ei le.

(10) Caiff person sydd â hawl i ymddangos mewn ymchwiliad groesholi personau sy'n rhoi tystiolaeth, ond fel arall, mae croesholi personau sy'n rhoi tystiolaeth mewn ymchwiliad yn fater i ddisgresiwn y person penodedig.

(11) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall a ddaw i law oddi wrth unrhyw berson, cyn neu yn ystod gwrandawriad neu ymchwiliad, ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad.

(12) Os yw'r person penodedig yn penderfynu felly, ceir cynnal ymchwiliad neu wrandawriad yn breifat, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

(13) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 17.

Pwerau i wahardd personau, tystiolaeth etc

17.—(1) Os bydd y person penodedig, yn ystod unrhyw gam mewn gwrandawriad neu ymchwiliad, o'r farn bod unrhyw un o'r rhesymau ym mharagraff (2) yn gymwys, caiff y person penodedig rwystro unrhyw berson rhag—

- (a) rhoi tystiolaeth;
- (b) croesholi person sy'n rhoi tystiolaeth; neu
- (c) gyflwyno unrhyw fater.

(2) Y rhesymau yw—

- (3) The persons entitled to appear are—
- (a) the appellant;
 - (b) the Licensing Authority; and
 - (c) any person who has made representations concerning the appeal.

(4) The appointed person may proceed in the absence of any person entitled to appear.

(5) The appointed person may permit any other person to appear, and such permission must not be unreasonably withheld.

(6) Any person entitled or permitted to appear may appear in person or be represented by any other person.

(7) A person entitled to appear may call evidence, but the calling of evidence is otherwise at the appointed person's discretion.

(8) Cross-examination is not permitted at a hearing unless the appointed person considers that it is required to ensure a thorough examination of the main issues.

(9) If the appointed person considers that cross-examination is required, the appointed person must consider, after consulting the appellant and the Licensing Authority, whether to close the hearing and start an inquiry instead.

(10) A person entitled to appear at an inquiry may cross-examine persons giving evidence, but the cross-examination of persons giving evidence at an inquiry is otherwise at the appointed person's discretion.

(11) The appointed person may take into account any written representation, evidence or any other document received from any person before or during a hearing or inquiry, provided that the appointed person discloses it at the hearing or inquiry.

(12) If the appointed person so decides, a hearing or an inquiry may be held wholly or partly in private.

(13) This regulation is subject to regulation 17.

Powers to exclude persons, evidence etc

17.—(1) If, at any stage of a hearing or inquiry the appointed person considers that any of the reasons in paragraph (2) apply, the appointed person may prevent any person from—

- (a) giving evidence;
- (b) cross-examining a person giving evidence; or
- (c) presenting any matter.

(2) The reasons are —

- (a) na ddarparwyd y dystiolaeth neu'r mater o fewn y terfynau amser perthnasol;
- (b) nad oedd y mater, rywfodd arall, wedi ei darparu yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o'r Rheoliadau hyn neu'n unol ag unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd neu ofyniad a wnaed gan y person penodedig o dan y rheoliadau hyn;
- (c) bod y dystiolaeth neu'r mater yn amherthnasol neu'n ailadroddus; neu
- (ch) bod y person yn ymddwyn, neu wedi ymddwyn, yn aflonyddgar yn y gwrandawriad neu ymchwiliad.

(3) Heb leihau effaith y pwerau ym mharagraff (1), os bydd unrhyw berson yn ymddwyn yn aflonyddgar yn y gwrandawriad neu ymchwiliad, caiff y person penodedig—

- (a) wneud yn ofynnol bod y person hwnnw'n ymadael;
- (b) atal y person hwnnw rhag cymryd rhan yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad; neu
- (c) caniatáu i'r person hwnnw aros, neu gymryd rhan, yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, ond ar amodau penodedig yn unig.

(4) Pan fo'r person penodedig yn gwrthod caniatáu, o dan baragraff (3), i berson roi dystiolaeth ar lafar, caiff y person hwnnw gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall mewn ysgrifennu i'r person penodedig cyn cau'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad (ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (1)).

Darpariaethau ychwanegol ynghylch dystiolaeth a chostau

18.—(1) Mae is-adrannau (2) i (5) o adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1) (ymchwiliadau lleol: dystiolaeth a chostau) yn gymwys, gyda'r addasiadau a ddisgrifir ym mharagraff (2), i unrhyw wrandawriad neu ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn, fel y maent yn gymwys i ymchwiliadau o dan yr adran honno.

(2) Yr addasiadau yw—

- (a) rhaid darllen y cyfeiriad at "the person appointed to hold the inquiry" fel pe bai'n gyfeiriad at y person penodedig;
- (b) rhaid darllen y cyfeiriad at "local authority" yn is-baragraff (b) ar is-adran (2) fel pe bai'n gyfeiriad at yr Awdurdod Trwyddedu;
- (c) rhaid darllen y cyfeiriad at "such local authority" yn is-adran (4) fel pe bai'n gyfeiriad at yr Awdurdod Trwyddedu;

- (a) that the evidence or matter was not provided within the relevant time limits;
- (b) that the evidence or matter was otherwise not provided in accordance with any provision of these Regulations or with any direction given or requirement made by the appointed person under these regulations;
- (c) that the evidence or matter is irrelevant or repetitious; or
- (d) that the person is behaving or has behaved in a disruptive manner at the hearing or inquiry.

(3) Without prejudice to the powers in paragraph (1), if any person at the hearing or inquiry behaves in a disruptive manner the appointed person may—

- (a) require that person to leave;
- (b) prevent that person from participating in the hearing or inquiry; or
- (c) permit that person to remain at, or participate in, the hearing or inquiry only on specified conditions.

(4) Where the appointed person refuses to permit a person to give oral evidence under paragraph (3), the person may submit to the appointed person any evidence or other matter in writing before the close of the hearing or inquiry (but this is subject to paragraph (1)).

Additional provisions as to evidence and costs

18.—(1) Subsections (2) to (5) of section 250 of the Local Government Act 1972(1) (local inquiries: evidence and costs) apply, with the modifications described in paragraph (2), to any hearing or inquiry under these Regulations as they apply to inquiries under that section.

(2) The modifications are—

- (a) the reference to the person appointed to hold the inquiry is to be read as a reference to the appointed person;
- (b) the reference to a local authority in subparagraph (b) to subsection (2) is to be read as a reference to the Licensing Authority;
- (c) the reference to "such local authority" in subsection (4) is to be read as a reference to the Licensing Authority;

(1) 1972 p.70. Diwygiwyd adan 250 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48), adrannau 37, 38 a 46, gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63), adran 49(2) ac Atodlen 12 a chan Ddeddf Cyfraith Statudau (Diddymiadau) 1989 (p.43).

(1) 1972 c. 70. Section 250 has been amended by the Criminal Justice Act 1982 (c. 48), sections 37, 38 and 46, by the Housing and Planning Act 1986 (c. 63), section 49(2) and Schedule 12 and by the Statute Law (Repeals) Act 1989 (c. 43).

(ch) rhaid darllen y cyfeiriadau at "the Minister causing an inquiry to be held" fel pe baent yn gyfeiriadau at y person penodedig.

(3) Mae adran 322A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) (gorchmynion ynglŷn â chostau pan na chynhelir gwrandawriad nac ymchwiliad) yn gymwys mewn perthynas â gwrandawriad neu ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn fel y mae'n gymwys i wrandawriad neu ymchwiliad lleol y cyfeirir ato yn yr adran honno.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (1) a (3), rhaid i gostau gwrandawriad neu ymchwiliad a gynhelir o dan y Rheoliadau hyn gael eu talu gan Weinidogion Cymru.

Ymchwiliadau cyfamserol neu gyfunol

19.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

- (a) pan fo apêl i'w phenderfynu drwy gyfrwng ymchwiliad, a
- (b) yn achos rhyw fater arall y bo'n ofynnol, neu'r awdurdodwyd, ei wneud yn destun ymchwiliad ("yr ymchwiliad arall"), pan yw'n ymddangos i'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol fod y materion yn gytras i'r fath raddau nes dylid eu hystyried ar y cyd.

(2) Caiff yr awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol gyfarwyddo bod y ddau ymchwiliad i'w gael eu cynnal yn gyfamserol neu'u cyfuno fel un ymchwiliad.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "yr awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol" yw'r person penodedig, neu, os swyddogaeth i ryw berson arall yw achosi cynnal yr ymchwiliad arall, y person penodedig a'r person arall hwnnw yn gweithredu ar y cyd.

Diogelwch gwladol — ymchwiliadau

20.—(1) Yn achos unrhyw apêl benodol, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio y byddai, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn groes i fuddiannau diogelwch gwladol—

- (a) pe bai ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei gynnal, neu
- (b) pe bai unrhyw aelodau o'r cyhoedd, neu unrhyw bersonau penodedig, yn cael mynediad i'r ymchwiliad neu ryw ran benodedig ohono,

rhaid peidio â chynnal yr ymchwiliad neu, yn ôl fel y digwydd, peidio â chaniatáu mynediad i aelodau'r cyhoedd, neu'r personau hynny i'r ymchwiliad neu i'r rhan honno o'r ymchwiliad.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "penodedig" yw—

- (a) penodedig yn y dystysgrif, neu

(d) references to the Minister causing an inquiry to be held are to be read as references to the appointed person.

(3) Section 322A of the Town and Country Planning Act 1990(1) (orders as to costs where no hearing or inquiry takes place) applies in relation to a hearing or inquiry under these Regulations as it applies in relation to a hearing or local inquiry referred to in that section.

(4) Subject to paragraphs (1) and (3), the costs of a hearing or an inquiry held under these Regulations must be defrayed by the Welsh Ministers.

Concurrent or combined inquiries

19.—(1) Paragraph (2) applies where—

- (a) the appeal is to be determined by way of an inquiry, and
- (b) in the case of some other matter required or authorised to be the subject of an inquiry ("the other inquiry"), it appears to the relevant authority or authorities that the matters are so far cognate that they should be considered together.

(2) The relevant authority or authorities may direct that the two inquiries be held concurrently or combined as one inquiry.

(3) In this regulation "the relevant authority or authorities" means the appointed person or, where causing the other inquiry to be held is the function of some other person, the appointed person and that other person acting jointly.

National security — inquiries

20.—(1) If, in the case of any particular appeal, the Secretary of State certifies that it would in the opinion of the Secretary of State be contrary to the interests of national security—

- (a) if an inquiry under these Regulations were to be held, or
- (b) if any members of the public, or any specified persons, were to be admitted to the inquiry or some specified part of it,

the inquiry is not to be held or, as the case may be, the public is not, or those persons are not, to be admitted to the inquiry or that part of it.

(2) In paragraph (1) "specified" means—

- (a) specified in the certificate, or

(1) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 322A gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34), adran 30(1), a mewnosodwyd is-adran (1A) o'r adran honno gan Ddeddf Cynllunio 2008 (p.29), adran 196(4) ac Atodlen 10, paragraffau 1 ac 11.

(1) 1990 c. 8. Section 322A was inserted by the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34), section 30(1), and subsection (1A) of that section was inserted by the Planning Act 2008 (c. 29), section 196(4) and Schedule 10, paragraphs 1 and 11.

(b) o ddisgrifiad a bennir yn y dystysgrif.

(b) of a description specified in the certificate.

RHAN 6

Penderfynu'r apêl yn derfynol

Penderfynu apelau a benderfynir drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig

21.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw apêl i'w phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig.

(2) Yr hysbysiad apêl dilys a'r dogfennau sy'n mynd gyda'r hysbysiad hwnnw, ynghyd ag unrhyw sylwadau neu esboniadau a wnaed gan yr apelydd ac a gafwyd o dan reoliad 10(1)(b) a (4) o fewn y terfyn amser perthnasol, yw'r hyn a gynhwysir yn sylwadau'r apelydd mewn perthynas â'r apêl.

(3) Y sylwadau a gafwyd o dan reoliad 10(1)(a) o fewn y terfyn amser perthnasol, ynghyd ag unrhyw esboniadau a wnaed gan yr Awdurdod Trwyddedu ac a gafwyd o dan reoliad 10(4) o fewn y terfyn amser perthnasol, yw'r hyn a gynhwysir yn sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â'r apêl.

(4) Wrth benderfynu'r apêl, caiff y person penodedig anwybyddu unrhyw sylw neu esboniad a wneir gan yr apelydd neu gan yr Awdurdod Trwyddedu, ac eithrio sylwadau'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu fel y'u pennir ym mharagraffau (2) a (3).

Penderfynu'r apêl — cyffredinol

22.—(1) Wrth benderfynu apêl yn erbyn penderfyniad, caiff y person penodedig—

- (a) gwrthod yr apêl;
- (b) caniatáu'r apêl a diddymu'r penderfyniad yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
- (c) pan yw'n diddymu penderfyniad o dan is-baragraff (b), gyfarwyddo'r Awdurdod Trwyddedu—
 - (i) i ganiatáu trwydded forol; neu
 - (ii) i ganiatáu trwydded forol ar ba bynnag delerau, neu'n ddarostyngedig ba bynnag amodau a bennir gan y person penodedig.

(2) Rhaid i'r person penodedig hysbysu'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu o'r penderfyniad, mewn ysgrifen.

PART 6

Final determination of the appeal

Determination of appeals determined by way of written representations

21.—(1) This regulation applies if an appeal is to be determined by way of written representations.

(2) A valid notice of appeal and the documents accompanying it, together with any representations or comments made by the appellant received under regulation 10(1)(b) and (4) within the relevant time limit, comprise the appellant's representations in relation to the appeal.

(3) The representations made under regulation 10(1)(a) within the relevant time limit, together with any comments made by the Licensing Authority under regulation 10(4) within the relevant time limit, comprise the Licensing Authority's representations in relation to the appeal.

(4) In determining the appeal, the appointed person may disregard any representation or comment made by the appellant or the Licensing Authority other than the appellant's representations and the Licensing Authority's representations as set out in paragraphs (2) and (3).

Determining the appeal — general

22.—(1) On determining an appeal against a decision, the appointed person may—

- (a) dismiss the appeal;
- (b) allow the appeal and quash the decision in whole or in part;
- (c) where the appointed person quashes a decision under sub-paragraph (b), direct the Licensing Authority—
 - (i) to grant a marine licence; or
 - (ii) to grant a marine licence on such terms or subject to such conditions as the appointed person may direct.

(2) The appointed person must notify the appellant and the Licensing Authority in writing of the determination.

Methiant i weithredu

23.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r apelydd neu'r Awdurdod Trwyddedu wedi methu, o fewn y terfynau amser perthnasol, â chymryd unrhyw gam neu ddarparu unrhyw wybodaeth, sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Caiff y person penodedig, ar ôl rhoi rhybudd i'r apelydd ac i'r Awdurdod Trwyddedu o'i fwriad i wneud hynny, benderfynu apêl, er gwaethaf y methiant i gymryd y cam hwnnw neu ddarparu'r wybodaeth honno.

Cyflenwi dogfennau etc

24.—(1) Rhaid i unrhyw beth y mae'n ofynnol, neu y caniateir, ei gyflenwi o dan y Rheoliadau hyn (gan gynnwys unrhyw sylwadau a wneir) fod mewn ysgrifen .

(2) Os yw dogfen a gyflenwir yn cyfeirio at ddogfen arall, rhaid cyflenwi copi o'r ddogfen honno yn ogystal.

(3) Ceir cyflenwi yn electronig unrhyw beth y mae'n ofynnol, neu y caniateir, ei gyflenwi o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) os gall y derbynnydd gael mynediad iddo;
- (b) os yw'r wybodaeth a gynhwysir ynddo ar gael i'r derbynnydd i'r un graddau, o leiaf, ag y byddai, pe bai'r wybodaeth wedi ei chyflwyno mewn ffurf brintiedig;
- (c) os yw'n ddigon parhaol i'w ddefnyddio i gyfeirio ato yn ddiweddarach; ac
- (ch) os yw'r derbynnydd yn cydsynio iddo gael ei gyflenwi yn electronig.

(4) Rhaid i'r dogfennau a chopïau —

- (a) a gyflenwir gan yr apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu gael eu cyflenwi'n ddyblyg;
- (b) a gyflenwir gan unrhyw berson arall, gael eu cyflenwi'n driphlyg

(5) Ond nid yw paragraff (4) yn gymwys i ddogfen neu gopi—

- (a) y mae'n ofynnol ei chyflwyno, neu ei gyflwyno, ynghyd â hysbysiad apêl o dan reoliad 7(1)(ch) a (2), neu
- (b) a gyflenwir yn electronig.

(6) Os oes unrhyw ddogfen wedi ei chyflenwi eisoes at ddibenion apêl, a'r ddogfen honno ar gael yn hwylus i'r holl bartïon, caiff y person penodedig gyfarwyddo nad oes rhaid ei chyflenwi drachefn.

Failure to take action

23.—(1) This regulation applies where the appellant or the Licensing Authority has failed, within relevant time limits, to take any step or provide any information required under these Regulations.

(2) The appointed person may, after giving the appellant and the Licensing Authority notice of the intention to do so, determine an appeal even though that step has not been taken or that information has not been provided.

Supply of documents etc

24.—(1) Anything required or permitted to be supplied (including any representations made) under these Regulations must be in writing.

(2) If a document supplied refers to another document, a copy of that other document must also be supplied.

(3) Anything required or permitted to be supplied under these Regulations may be supplied electronically if—

- (a) it is capable of being accessed by the recipient;
- (b) the information contained in it is available to the recipient to no lesser extent than it would be if it were in printed form;
- (c) it is sufficiently permanent to be used for subsequent reference; and
- (d) the recipient consents to it being supplied electronically.

(4) Documents and copies supplied —

- (a) by the appellant or the Licensing Authority must be supplied in duplicate;
- (b) by any other person, must be supplied in triplicate.

(5) But paragraph (4) does not apply to a document or copy—

- (a) required to accompany a notice of appeal under regulation 7(1)(d) and (2), or
- (b) supplied electronically.

(6) If any document has already been supplied for the purposes of an appeal and is readily available to all parties, the appointed person may direct that it need not be supplied again.

Estyn terfynau amser perthnasol, a darparu gwybodaeth neu gopiâu ychwanegol

25.—(1) Caiff y person penodedig, ar unrhyw adeg, mewn amgylchiadau eithriadol, estyn unrhyw derfyn amser.

- (2) Caiff y person penodedig ar unrhyw adeg—
- (a) gwneud yn ofynnol gyfnewid gwybodaeth bellach,
 - (b) cynnig cyfleoedd pellach i wneud sylwadau,
 - (c) gwneud yn ofynnol fod unrhyw berson yn darparu gwybodaeth bellach sy'n berthnasol i'r apêl, neu gopiâu ychwanegol o unrhyw ddogfen,

os yw'r person penodedig o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn penderfynu'r apêl.

(3) Rhaid i berson sydd dan ofyniad i wneud sylwadau pellach, neu y cynigir cyfle iddo wneud hynny, o dan baragraff (2), gydymffurfio ag unrhyw derfyn amser a bennir gan y person penodedig.

Extending relevant time limits and providing additional information or copies

25.—(1) The appointed person may at any time, in exceptional circumstances, extend any relevant time limit.

- (2) The appointed person may at any time—
- (a) require further exchanges of information,
 - (b) offer further opportunities to make representations,
 - (c) require any person to provide further information relevant to the appeal or additional copies of any document,

if the appointed person considers that it is necessary for the determination of the appeal.

(3) A person who is subject to a requirement, or who is offered an opportunity to make further representations, under paragraph (2), must comply with any time limit specified by the appointed person.

Jane Davidson

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

22 Mawrth 2011

22 March 2011

© Crown copyright 2011

© Crown copyright 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 925 (Cy.134)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**TRWYDDEDU (MOROL),
CYMRU**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**TRIBIWNLISOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

Rheoliadau Trwyddedu Morol
(Apelau yn Erbyn Penderfyniadau
Trwyddedu) (Cymru) 2011

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 925 (W.134)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**LICENSING (MARINE),
WALES**

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

The Marine Licensing (Appeals
Against Licensing Decisions)
(Wales) Regulations 2011